Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

# Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| **CYFARWYDDIAETH:** | Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant |
| **ADRAN:** | Gofal Cymdeithasol i Oedolion / Gwasanaethau Darparwr – Anghenion Cymhleth / Gwasanaethau Arhosiad Byr Breakaway a Llety Brys Ael-y-Bryn |
| **SWYDD:** | Gweithiwr Gofal Cymdeithasol - Gwasanaethau Arhosiad Byr Breakaway a Llety Brys Ael-y-Bryn |
| **GRADD Y SWYDD:** | GR06 |
| **YN ATEBOL I'R:** | Rheolwr Gwasanaeth Cynorthwyol (Breakaway) / Arweinydd Tîm – Ael-y-Bryn |

---

Gweithio fel rhan o dîm sy'n rhoi cymorth i bobl ag amrywiaeth o anghenion gan gynnwys anableddau dysgu, ASD, anableddau corfforol, anghenion iechyd cymhleth ac unigolion ag anghenion ymddygiadol cymhleth.

Rhoi cymorth o ansawdd ataliol a rhagweithiol, sy'n rhoi seibiant i unigolion a'u teuluoedd/gofalwyr i gynorthwyo a galluogi'r unigolyn i aros yn ei gartref teuluol.

Rhoi cymorth brys i unigolion ag argyfyngau teuluol, pryderon diogelu, materion sy'n ymwneud ag iechyd ac sydd mewn perygl o leoliad yn chwalu.

---

**PRIF GYFRIFOLDEBAU A GWEITHGAREDDAU:**

- Cyfrannu at egwyddorion a gweithdrefnau cymorth ymddygiad cadarnhaol a gweithredu hyn, gan weithio gydag unigolion ag anghenion cymhleth.

- Darparu cymorth, gofal a chyngor hyblyg ac o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gryfderau, nodau ac anghenion amrywiol unigolyn a darparu hyn mewn modd sy'n canolbwyntio ar y person sy'n hyrwyddo ymgysylltiad gweithredol a chynllunio unigol.

- Diogelu unigolion tra'n cydnabod a chefnogi eu hawl i gymryd risgiau, gan sicrhau bod mesurau priodol ar waith.

- Rhoi cymorth i bob agwedd ar fywyd bob dydd ac addysgu sgiliau a allai gynnwys; tasgau yn y cartref a domestig, siopa a pharatoi deiet/bwyd, hylendid personol, gwisg ac ymddangosiad personol.

- Cefnogi unigolion o ran rhoi meddyginiaeth yn unol â pholisïau a gweithdrefnau CBSP.

- Cymryd rhan weithredol a chyfrannu at ddatblygu cynlluniau sy'n canolbwyntio ar y person gan gynnwys asesiadau risg cadarnhaol a chanllawiau / arweiniad cysylltiedig lle y bo angen.

- Cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu a gweithredu prosesu a gweithdrefnau rheoli risg cadarnhaol.

- Cynorthwyo wrth gadw cofnodion cywir h.y. Cofnodion personol unigolion, cofnodion tŷ, llyfrau cyfathrebu, dyddiaduron, bwyd a gwariant arian mân.

- Sicrhau bod cofnodion yn cael eu cadw'n unol â deddfwriaeth Diogelu Data a bod yr holl ddata'n cael eu trin yn amodol ar bolisïau a gweithdrefnau GDPR a CBSP.

- Cysylltu â theuluoedd, staff a gwasanaethau perthnasol i gynnal safon uchel o gymorth a darparu gwasanaeth o ansawdd.

- Cyfranogi mewn sesiynau goruchwylio a chyfleoedd datblygu staff fel y cytunwyd arnynt gan eich rheolwr a chymryd rhan yn weithredol mewn unrhyw hyfforddiant er mwyn cynnal eich datblygiad proffesiynol eich hun a gwella cymhwysedd yn eich rôl, sy'n cynnwys cwblhau proses Fframwaith Sefydlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru Gyfan.

- Bod yn gyfarwydd â Rheoliadau Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith, a sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu'n effeithiol tra yn y gwaith. Cynnal a chofnodi unrhyw brofion diogelwch a rhoi gwybod am unrhyw nam a nodir. Rhoi gwybod a, lle y bo'n angenrheidiol, ymdrin ar unwaith ag offer diffygiol. Cynorthwyo aelodau o'r tîm a chysylltu â nhw, o ran cynnal safonau derbyniol ar gyfer cynnal a chadw a diogelwch y tŷ.

- Gweithio'n hyblyg ar draws Gwasanaethau Arhosiad Byr Breakaway ac Ael-y-Bryn
  Llety brys lle mae angen blaenoriaethol yn ofynnol

- Deall yn llawn ac arsylwi ar bob mater sy'n ymwneud ag unigolion a staff gan sicrhau bod cyfrinachedd a chodau ymddygiad yn cael eu dilyn ar bob adeg.

- Meddu ar ymwybyddiaeth, dealltwriaeth ac ymrwymiad i weithredu polisïau a gweithdrefnau gweithredol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

**DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL**

**Iechyd a Diogelwch**
Cyflawni'r rolau a chyfrifoldebau cyffredinol a phenodol a nodir yn y Polisi Iechyd a Diogelwch

**Cyfle Cyfartal**
Sicrhau y gweithredir pob gweithgaredd yn unol â deddfwriaeth cyfle cyfartal ac arfer gorau.

**Diogelu**
Mae amddiffyn plant, pobl ifanc neu oedolion mewn perygl yn un o gyfrifoldebau craidd pob cyflogai. Dylid rhoi gwybod am unrhyw bryderon i'r Tîm Diogelu Oedolion neu'r Gwasanaeth IAA Plant o fewn MASH.

**Adolygiad a Hawl i Amrywio**
Mae'r Disgrifiad Swydd hwn fel yr un cyfredol a chaiff ei adolygu'n rheolaidd. Efallai y bydd gofyn i chi gyflawni tasgau eraill y gellir eu neilltuo i chi'n rhesymol, gan gynnwys gweithgarwch datblygu, sydd o fewn eich gallu a’ch gradd.

**GWIRIAD COFNODION TROSEDDOL (LLE Y BO'N BERTHNASOL)**
Mae'r swydd hon yn ei gwneud yn ofynnol cael gwiriad cofnodion troseddol drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

# Manyleb y Person
## Gwasanaethau Arhosiad Byr Breakaway a Llety Brys Ael-y-Bryn

Mae'r priodoleddau canlynol yn cynrychioli amrediad y sgiliau, y galluoedd a'r profiad ac ati sy'n berthnasol i'r swydd hon. Disgwylir i'r ymgeiswyr fodloni'r priodoleddau sydd wedi'u nodi fel rhai hanfodol.

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau, Addysg a Hyfforddiant** | • Addysgwyd i City and Guilds Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd ac Ymarfer (Oedolion) neu gymhwyster blaenorol a gydnabyddir gan Gofal Cymdeithasol Cymru neu rhaid eich bod yn barod i ymgymryd â hyfforddiant i gyflawni'r dyfarniad.<br>• Cofrestru deuol gyda Gofal Cymdeithasol Cymru neu ofyniad i gofrestru o fewn 6 mis, h.y. Gofal Preswyl a Chymorth Cartref.<br>• Ymrwymiad i ymgymryd â hyfforddiant i gyflawni tystysgrif Uwch Cefnogi Ymddygiad yn Gadarnhaol (Lefel 3). | Ydy<br><br>Ydy | Cyflwyno Tystysgrifau Cymwysterau gwreiddiol a ffurflen gais. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | • Dealltwriaeth o'r materion a wynebir gan bobl ag anableddau dysgu, ASD, anableddau corfforol, anghenion iechyd cymhleth ac unigolion ag anghenion ymddygiadol cymhleth.<br>• Profiad o gadw cofnodion ysgrifenedig ac ariannol cywir.<br>• Dangos profiad o weithio yn ôl eich menter eich hun ac fel rhan o dîm.<br>• Dealltwriaeth o'r egwyddorion a'r canlyniadau disgwyliedig i'w cyflawni yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.<br>• Gwybodaeth am ganllawiau deddfwriaethol perthnasol e.e. RISCA, Deddf Galluedd Meddyliol, DoLS, | Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais a phroses ddethol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Gwybodaeth a Phrofiad (parhad)** | Diogelu ac Iechyd a Diogelwch.<br>• Gwybodaeth sylfaenol am iechyd a diogelwch.<br>• Bod yn ymwybodol o ddeddfwriaeth a gweithdrefnau sy'n ymwneud â cham-drin ac esgeulustod.<br>• Profiad o ddarparu gwybodaeth mewn fformatau priodol.<br>• Ymwybyddiaeth o hawliau, dewisiadau, urddas a chyfrinachedd yr unigolyn ac ymrwymiad i gefnogi a chynnal hyn. | Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais a phroses ddethol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol** | • Agwedd gadarnhaol a lefel uchel o gymhelliant i gynorthwyo unigolion i gyflawni canlyniadau cadarnhaol.<br>• Sgiliau mewn tasgau sylfaenol yn y cartref.<br>• Gallu dilyn cynlluniau a gweithdrefnau cymorth/gofal h.y. gweithgareddau proffesiynol, gwirfoddol, hamdden.<br>• Gallu cwblhau a chynnal cofnodion cywir.<br>• Gallu datblygu perthynas dda gydag unigolion drwy wrando'n weithredol a gweithredu dulliau sy'n canolbwyntio ar y person.<br>• Sgiliau cyfathrebu effeithiol ar lafar ac yn ysgrifenedig gyda'r gallu i ymgysylltu ag unigolion, cydweithwyr, rheolwyr a gweithwyr proffesiynol eraill.<br>• Gallu gweithredu cefnogi ymddygiad yn gadarnhaol.<br>• Sgiliau rhyngbersonol a gweithio mewn tîm, gan gynnwys hyder a phendantrwydd gydag agwedd 'gallu gwneud'.<br>• Gallu defnyddio systemau TG yn effeithiol.<br>• Gallu ymgymryd â hyfforddiant o natur gorfforol, e.e. PBM, adweithiol a chodi a chario.<br>• Gallu gweithio'n hyblyg fel rhan o dîm ar rota i gynnwys nosweithiau, penwythnosau, gwyliau banc, cymorth yn ystod y nos (aros yn effro) a dyletswyddau cysgu i mewn (lle bo angen). | Ydy<br><br>Ydy<br><br>Ydy<br><br>Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais a phroses ddethol. |
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol (parhad)** | | | Cyfweliad, ffurflen gais a phroses ddethol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • Meddu ar drwydded yrru lawn.<br>• Gallu cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. | Ydy | |

**Disgrifiad Swydd**

**CYFARWYDDIAETH:** Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant

**ADRAN:** Gofal Cymdeithasol i Oedolion / Gwasanaethau Darparwr / Anghenion Cymhleth / Gwasanaethau Arhosiad Byr Breakaway a Llety Brys Ael-y-Bryn

**SWYDD:** Gweithiwr Gofal Nos - Gwasanaethau Arhosiad Byr Breakaway a Llety Brys Ael-y-Bryn

**GRADD Y SWYDD:** GR04

**YN ATEBOL I'R:** Rheolwr Gwasanaeth Cynorthwyol (Breakaway) / Arweinydd Tîm - Ael-y-Bryn

---

**DIBEN Y SWYDD:**

Gweithio fel rhan o dîm sy'n rhoi cymorth yn y nos i bobl ag amrywiaeth o anghenion gan gynnwys anableddau dysgu, ASD, anableddau corfforol, anghenion iechyd cymhleth ac unigolion ag anghenion ymddygiadol cymhleth.

---

**PRIF GYFRIFOLDEBAU A GWEITHGAREDDAU:**

- Ymgymryd â thasgau cartref a domestig, gan gynnwys glanhau, golchi, smwddio a pharatoi deiet/bwyd.

- Cefnogi unigolion gyda phob agwedd ar ofal personol a darparu ymatebion priodol ar gyfer unrhyw argyfyngau meddygol. Gall hyn gynnwys cefnogi pobl i fynd i leoliadau meddygol neu ysbytai mewn argyfwng.

- Cyfrannu at egwyddorion a gweithdrefnau cymorth ymddygiad cadarnhaol a gweithredu hyn, gan weithio gydag unigolion ag anghenion cymhleth.

- Dilyn a gweithredu polisïau a gweithdrefnau diogelu.

- Cadw cofnodion cywir ar gyfer unigolion dros nos.

- Sicrhau bod cofnodion yn cael eu cadw'n unol â deddfwriaeth Diogelu Data a bod yr holl ddata'n cael eu trin yn amodol ar bolisïau a gweithdrefnau GDPR a CBSP.

- Cyfranogi mewn sesiynau goruchwylio a chyfleoedd datblygu staff fel y cytunwyd arnynt gan eich rheolwr a chymryd rhan yn weithredol mewn unrhyw hyfforddiant er mwyn cynnal eich datblygiad proffesiynol eich hun a gwella cymhwysedd yn eich rôl, sy'n cynnwys cwblhau proses Fframwaith Sefydlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru Gyfan.

- Bod yn gyfarwydd â Rheoliadau Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith, a sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu'n effeithiol tra yn y gwaith. Cynnal a chofnodi unrhyw brofion diogelwch a rhoi gwybod am unrhyw nam a nodir. Rhoi gwybod a, lle y bo'n angenrheidiol, ymdrin ar unwaith ag offer diffygiol. Cynorthwyo aelodau o'r tîm a chysylltu â nhw, o ran cynnal safonau derbyniol ar gyfer cynnal a chadw a diogelwch y tŷ.

- Gweithio'n hyblyg ar draws Gwasanaethau Arhosiad Byr Breakaway ac Ael-y-Bryn lle mae angen blaenoriaethol yn ofynnol.

- Deall yn llawn ac arsylwi ar bob mater sy'n ymwneud ag unigolion a staff gan sicrhau bod cyfrinachedd a chodau ymddygiad yn cael eu dilyn ar bob adeg.

- Meddu ar ymwybyddiaeth, dealltwriaeth ac ymrwymiad i bolisïau a gweithdrefnau gweithredol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

**DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL**

Iechyd a Diogelwch

Cyflawni'r rolau a chyfrifoldebau cyffredinol a phenodol a nodir yn y Polisi Iechyd a Diogelwch

Cyfle Cyfartal

Sicrhau y gweithredir pob gweithgaredd yn unol â deddfwriaeth cyfle cyfartal ac arfer gorau.

Diogelu

Mae amddiffyn plant, pobl ifanc neu oedolion mewn perygl yn un o gyfrifoldebau craidd pob cyflogai. Dylid rhoi gwybod am unrhyw bryderon i'r Tîm Diogelu Oedolion neu'r Gwasanaeth IAA Plant o fewn MASH.

Adolygiad a Hawl i Amrywio

Mae'r Disgrifiad Swydd hwn fel yr un cyfredol a chaiff ei adolygu'n rheolaidd. Efallai y bydd gofyn i chi gyflawni tasgau eraill y gellir eu neilltuo i chi'n rhesymol, gan gynnwys gweithgarwch datblygu, sydd o fewn eich gallu a'ch gradd.

GWIRIAD COFNODION TROSEDDOL (LLE Y BO'N BERTHNASOL)

Mae'r swydd hon yn ei gwneud yn ofynnol cael gwiriad cofnodion troseddol drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

**Manyleb y Person**

## Gwasanaethau Arhosiad Byr Breakaway a Llety Brys Ael-y-Bryn / Gweithiwr Gofal Nos

Mae'r priodoleddau canlynol yn cynrychioli amrediad y sgiliau, y galluoedd a'r profiad ac ati sy'n berthnasol i'r swydd hon. Disgwylir i'r ymgeiswyr fodloni'r priodoleddau sydd wedi'u nodi fel rhai hanfodol.

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau, Addysg a Hyfforddiant** | • Addysgwyd i City and Guilds Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd a City and Guilds Lefel 2 Ymarfer (Oedolion) neu City and Guilds Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion) neu gymhwyster sy'n cael ei gydnabod gan Gofal Cymdeithasol Cymru neu'n barod i ymgymryd â hyfforddiant i gyflawni'r dyfarniad.<br>• Cofrestru deuol gyda Gofal Cymdeithasol Cymru neu ofyniad i gofrestru o fewn 6 mis, h.y. Gofal Preswyl a Chymorth Cartref. | Ydy<br><br>Ydy | Cyflwyno Tystysgrifau Cymwysterau gwreiddiol a ffurflen gais. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | • Dealltwriaeth o'r materion a wynebir gan bobl ag anableddau dysgu, ASD, anableddau corfforol, anghenion iechyd cymhleth ac unigolion ag anghenion ymddygiadol cymhleth.<br>• Profiad o gadw cofnodion ysgrifenedig ac ariannol cywir.<br>• Dangos profiad o weithio yn ôl eich menter eich hun ac fel rhan o dîm.<br>• Gwybodaeth sylfaenol am iechyd a diogelwch.<br>• Bod yn ymwybodol o ddeddfwriaeth a gweithdrefnau sy'n ymwneud â cham-drin ac esgeulustod. | Ydy<br><br>Ydy | |
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol** | • Agwedd gadarnhaol a lefel uchel o gymhelliant i gynorthwyo unigolion i gyflawni canlyniadau cadarnhaol.<br>• Sgiliau mewn tasgau sylfaenol yn y cartref. | Ydy<br><br>Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais a phroses ddethol. |
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol (parhad)** | • Gallu dilyn cynlluniau a gweithdrefnau cymorth/gofal h.y. gweithgareddau proffesiynol, gwirfoddol, hamdden.<br>• Gallu cwblhau a chynnal cofnodion cywir.<br>• Gallu cysylltu â theuluoedd ac asiantaethau allanol h.y. meddygon teulu, Rheolwyr Gofal, Nyrsys Cymunedol ac ati.<br>• Sgiliau arsylwi a gwrando da .<br>• Gallu gweithredu cefnogi ymddygiad yn gadarnhaol.<br>• Gallu dilyn a chwblhau tasgau a ddirprwyir<br>• Gallu bod yn fodel rôl a dangos arfer gorau<br>• Gallu gweithio'n hyblyg ac yn rhagweithiol.<br>• Gallu cynorthwyo unigolion mewn amrywiaeth eang o sefyllfaoedd a/neu leoliadau. | Ydy<br><br>Ydy<br><br>Ydy<br><br>Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais, a phroses ddethol (parhad.). |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • Gallu ymgymryd â hyfforddiant o natur gorfforol, e.e. PBM, adweithiol a chodi a chario.<br>• Gallu gweithio'n hyblyg fel rhan o dîm ar rota i gynnwys nosweithiau, penwythnosau, gwyliau banc, cymorth yn ystod y nos (aros yn effro) a dyletswyddau cysgu i mewn (lle bo angen).<br>• Meddu ar drwydded yrru lawn.<br>• Gallu cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. | <br>Ydy<br><br>Ydy | |